

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Fawrth, 7fed o Ebrill, 2020 drwy ebost a galwadau ffon.

Roeddent yn faterion brys oedd angen sylw oherwydd nad oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y COVID 19

1. Cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5fed o Fawrth 2020 - y cofnodion wedi cael ei anfon drwy ebost at bawb. Bydd angen i'r Cadeirydd ei llofnodi a'i rhoi i'r Clerc ar ol y cyfarfod nesaf.
2. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth 2020 ac Ebrill 2020 (wedi methu llofnodi taliadau BACS mis Mawrth 2020 o dan yr amgylchiadau/, ac wedi cael caniatad gan y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Cyfarfod Busnes drwy ebost y byddai'n iawn talu'r taliadau oedd angen ei gwneud fis Ebrill 2020 drwy BACS) - bydd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei gweld a'i llofnodi o flaen noson ein cyfarfod nesaf.
3. Datgan buddiant personol - neb.

#### 4. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned:-

- a. Cais Rhif C20/0216/41/RC - Gernant Bach, Llangybi: dileu cytundeb 106 - Wedi derbyn yr sylwadau isod, "*cefnogi'r cais yma. Y mae, mewn gwirionedd yn ychwanegu un uned fyw yng nghefn gwlad ac yn cyfrannu felly at yr economi yng nghefn gwlad ac yn ffyniant i'r ardal*", a'r ail, "*er yn teimlo bod Cytundeb 106 mewn egwyddor yn un y dylid ei barchu, ond os oes posibilrwydd ei fod yn mynd ar y farchnad i'w werthu fel ty haf yna buaswn yn sicr yn gwrthwynebu'r cais*".  
Cefnogi'r cais. Y Clerc wedi anfon y sylwadau uchod ymlaen i'r Adran Cynllunio.
- b. Cais Rhif C19/1211/41/TC - Swn y Mór, Chwilog - cais tystysgrif cyfreithloni defnydd presennol ar gyfer creu 7 pits ac un carafan sefydlog i gyd gyda chyflewnwad trydan a dwr eu hunain a'r garafan sefydlog wedi ei gosod o fewn safle gauedig ei hun ac un uned teithiol wedi ei amgylchynu â ffens - gwrthod.
- c. Cais Rhif C20/0133/41/LL - Hufenfa De Arfon, Rhydygwystl, - Cais ar gyfer gosod adeilad storio a cyfarpar prosesu maidd - cefnogi.
- d. Cais Rhif C20/0109/41/CT - Hen Felin, Llanystumdwy - cais i dorri canghenau coeden o fewn Adral Cadwraeth - cefnogi.

5. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2020 ymlaen. Gwnaed penderfyniad gan y Cyngorwyr ar 5ed a'r 6ed o Ebrill 2020, drwy ebost yn cytuno, oherwydd sefyllfa COVID19 eleni, y byddai'n anodd iawn cael prisiau, ac yn wir anodd cael gwneud y gwaith yn ol yr arfer. Felly, gofynwyd i'r Clerc ofyn wrth y 2 fu'n gwneud y gwaith barbio a chynnal a chadw'r Bedd llynedd, os y byddent yn fodlon gwneud y gwaith eto am y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 - diwedd Mawrth 2021.  
Fe wnaeth y Clerc holi Mr Mel ab Owain, Un Llais Cymru, ac anfonodd ebost at y Clerc yn cadarnhau y byddai hyn yn iawn am eleni'n unig.

Felly ni roddwyd hysbyseb yn Y Ffynnon, ar ein gwefan, nac ar ein hysbysfyrddau eleni. Mae'r Clerc wedi cadw copiau o'r ebyst er mwyn pwrpas archwiliad flwyddyn nesaf.

- a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
- b. Llwybr o dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
- c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
- ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
- dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi, un toriad.

Bydd angen gwneud y toriad cyntaf ganol Mehefin, a'r ail doriad ddechrau Medi.

Mae cytundeb torri Cae Chwarae Llanygybi (*cytundeb wedi ei wneud yn 2018 am 3 mlynedd felly mae hwn yn iawn am eleni eto*).

**6. Archwilio** – bydd y Clerc yn cwblhau'r manylion sydd ei angen gyfer yr archwilio mewnol ac allanol yn ystod yr wythnosau nesaf. **Derbyn**.

### **Materion Ariannol**

7. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd o fewn y dyddiau nesaf, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.03.2020. Dyma'r symiau sydd yn y tri cyfrif ar 31.03.2020:

	£
Cyfrif cyfredol	6463.66
Cyfrif Budd Cymunedol	1277.31
Cyfrif Cadw	4580.62

### **8. PWYSIG - COVID19**

Mae'r Clerc hefyd wedi derbyn cais am arian gan Dr Arfon Williams, Meddygfa Nefyn, ar gyfer prynu masgiau arbennig ar gael gan gwmni o Ynys Môn sydd yn costio tua £10 -£15 yr un ac mae'n dweud ei bod angen tua 1000 ohonynt i'w gadw ef a'i staff yn saff yn yr ysbytai dros dro fydd yn cael eu defnyddio yn yr ardal yma. Bydd y Clerc yn anfon ebost arwahan gyda'r manylion.

Fe wnaeth y Clerc gysylltu hefo Mr Mel ab Owain, Un Llais Cymru, i ofyn os oedd yn iawn i roi cyfraniad tuag at hyn a derbyniwyd cadarnhad drwy ebost ganddo 07.04.2020, yn dweud y byddai'n iawn gwneud cyfraniad am arian tuag at yr uchod, o dan y Ddeddf Llesiant,

*"NHS-Yn ystod amseroedd arferol ni fysech yn gallu ariannu corff statudol sy'n cael ei ariannu gan ffynhonnell arall (e.e. Cynulliad Cymru) i ymgymryd â'i gyfrifoldebau.*

*Ond, nid yw nawr yn amser arferol. Byddwn yn dweud, o gofio'r pwysau ychwanegol sydd ar y gwasanaeth iechyd, fod gennych achos da i roi rhodd i'ch Gwasanaeth Iechyd Lleol o dan Ddeddf Llesiant 2000.*

*Bydd yn rhaid gosod hyn yn erbyn eich lwfans gwariant S137 o ar gyfer 2020/21."*

Gwnaeth y Clerc hefyd siarad hefo Ms Helen Griffith, Rheolwr Meddygfa Tŷ Doctor, Nefyn ar 07.04.2020. Fe wnaeth gadarnhau fod y Dr Arfon Williams o Feddygfa Nefyn, wedi cael ei benodi fel Cydlynnydd Ardal, sydd yn cynnwys ardal Arfon, Llŷn ac

Eifionydd, o Aberdaron draw i Penrhyndeudraeth a Blaenau Ffestiniog, ac yn cynnwys 35,000 o gleifion.

Dywedodd ei bod yn cynnwys ardal cymuned Llanystumdwy i gyd, yn feddygfeydd ac ysbytai. Dywedodd ei bod wedi derbyn symiau hael iawn gan sawl cyngor lleol. Roedd hefyd yn dweud faint o bwysig oedd cael digon o offer diogelwch i gadw gweithwyr yn ddiogel, a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n lleol yn ein ardal ni.

Fe wnaeth y Clerc drafod y mater dros y ffon hefo'r Cadeirydd Anwen Jones, yr Is-Gadeirydd Aled Davies a'r Cynghorydd Aled Evans, ac yn dilyn derbyn ymatebion ebost gan y weddill y Cynghorywyr, **cytunwyd i gyfrannu £1500.00 tuag brynu'r offer yma.**

9. Anfonebau angen eu talu:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
Delwedd	Costau lletya/cynhaliaeth blynyddol	<b><u>411.38</u></b>	<b><u>82.28</u></b>	<b><u>493.66</u></b>	<b><u>493.66</u></b>

Cyflog mis Mawrth 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS yn lle sic oherwydd sefyllfa y COVID19:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2020 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.60	<b><u>290.35</u></b>	<b><u>290.35</u></b>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2020	363.00 x 20% = £72.60	<b><u>72.60</u></b>	<b><u>72.60</u></b>
Costau'r Clerc Mawrth 2020	£16.00	<b><u>16.00</u></b>	<b><u>16.00</u></b>

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.